Polisi Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

CYNNWYS

Rhagarweiniad i'r Polisi		Tudalen 3
Adran 1	Diben	Tudalen 4
Adran 2	Gwneud Cais	Tudalen 5
Adran 3	Cymhwyster	Tudalen 5
Adran 4	Taliadau	Tudalen 6
Adran 5	Apeliadau	Tudalen 6
Adran 6	Defnyddio cyllid	Tudalen 6
Adran 7	Canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais	Tudalen 7
Adran 8	Datganiad	Tudalen 7
Adran 9	Cludiant o'r Cartref i'r Coleg	Tudalen 8
Adran 10	Gofal Plant	Tudalen 8
Adran 11	Cymhorthdal Prydau Bwyd	Tudalen 8
Adran 12	Adnoddau Penodol i Gwrs	Tudalen 8
Adran 13	Rheoli FCF (Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn)	Tudalen 9
Adran 14	Diwygiadau	Tudalen 9
Adran 15	Atodiadau	Tudalen 11

1. Diben

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn clustnodi Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) ar gyfer pob Coleg at ddibenion darparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer yr holl ddysgwyr. Mae'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yn gyfyngedig ac ystyrir pob un cais yn unigol er mwyn dosrannau'r cyllid yn deg ac effeithiol. Mae'r Coleg yn gorfod ufuddhau i gyfarwyddyd yr AdAS (DfES) ar y defnydd a Rheolaeth o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn a gall unrhyw ohebiaeth bellach gan yr AdAS effeithio ar y Polisi hwn.

Caiff yr arian ei ddosbarthu drwy'r system a ddisgrifir isod.

1.2.1 Caiff y Gronfa Ariannol wrth Gefn ei hystyried ochr yn ochr â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG) sydd ar gael ar gyfer dysgwyr dros 19 oed sy'n diwallu rhai o'r meini prawf, sef rhai ariannol yn bennaf.

1.2.2 Caiff y Gronfa Ariannol Wrth Gefn hefyd ei hystyried ochr yn ochr â'r Lwfans Cynnal Addysg (LCA) sydd ar gael i ddysgwyr 16, 17 ac 18 oed ac unrhyw gyllid arall sydd ar gael i helpu dysgwyr gwrdd â chostau parhau mewn addysg. Paratoir datganiad diwygiedig blynyddol ar ffynonellau cyllid ar gyfer dysgwyr cyn agor y rownd gwneud cais ar gyfer y flwyddyn ganlynol a bydd ar gael ar wefan y Coleg.

1.2.3 Bydd gwariant y flwyddyn flaenorol yn sail i flaenoriaethau y blynyddoedd canlynol, i'w trafod a'u cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth cyn agor y broses gwneud cais.

2. Gwneud cais

2.1 Gall dysgwyr wneud cais am gymorth y Gronfa Ariannol wrth Gefn drwy wefan Hwb y Dysgwyr (https://learnerhub.cymoedd.ac.uk). Gellir gwneud cais am y flwyddyn ganlynol o fis Ebrill yn ystod y flwyddyn flaenorol. Os

bydd angen, gellir lanlwytho tystiolaeth o amgylchiadau ariannol y flwyddyn dreth gyfredol drwy wefan Hwb y Dysgwyr (LearnerHub).

2.2 Mae hawl gan ddysgwyr i wneud cais ar unrhyw bryd yn ystod cyfnod eu hastudiaeth er bod dyraniad penodol i arian cyfyngedig y grant hwn.

2.3 Mae staff Gwasanaethau Dysgwyr a Champws ar gael i helpu'r dysgwyr gyda'u cais.

2.4 Bydd angen tystiolaeth o bryniant lle bo'n briodol e.e. prynu cyfarpar.

2.5 Caiff ceisiadau eu prosesu o fewn 4 wythnos. Hysbysir ymgeiswyr aflwyddiannus.

3. Cymhwyster

3.1 I fod yn gymwys ar gyfer cymorth y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, rhaid i ddysgwr gyflawni'r meini prawf canlynol:

(i) Llawn amser (wedi preswylio fel arfer yn y DU am 3 blynedd cyn cychwyn y cwrs.

(ii) Bod yn ddinesydd yr UE gyda statws sefydlog o dan Gytundebau Ymadael neu'n ffoadur neu

(iii) Wedi cael caniatâd arbennig i barhau a bodloni gofynion preswylio am 3 blynedd neu

(iv) Fod wedi ymrestru fel dysgwr ar unrhyw un o gampysau'r Coleg.

(v) Cynnig tystiolaeth o incwm teuluol ar gyfer cais am Brydau Ysgol Am Ddim neu

(vi) Gynnig prawf o hawl i Lwfans Cynnal Addysg (LCA) neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG) neu gymorth mathau eraill o Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn.

(vii) Gallai fod gan ddysgwyr heb fod yn gymwys i gael cymorth ariannol y Gronfa Ariannol Wrth Gefn hawl, mewn amgylchiadau eithriadol, i gymorth ariannol am gymorth caledi o ffynonellau cyllido eraill.

4. Taliadau

4.1 Telir drwy drosglwyddiadau BACS i gyfrif y dysgwr neu Ddarparwr.

4.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau o ran y gwir daliadau at y swyddog sy'n gyfrifol (elizabeth.butler@cymoedd.ac.uk)

5. Apeliadau

5.1 Rhaid i apeliadau i'r swyddog riportio fod yn ysgrifenedig (manylion cyswllt uchod) yn datgan y rheswm dros yr apêl ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol ychwanegol.

5.2 Caiff apeliadau eu hystyried gan Gyfarwyddwr EMIS a phenderfynir o fewn 15 diwrnod gwaith o'i dderbyn. Mae'r cyfryw benderfyniad yn derfynol.

5.2 Rhaid apelio o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad sy'n destun dadl.

6. Defnyddio'r cyllid

6.1 Is-rennir y gronfa gyffredinol yn gategorïau i fynd i'r afael â meysydd lle nodwyd yr angen am gymorth ariannol i fod yn help i oresgyn rhwystrau rhag astudio.

6.2 Yn gyfredol, caiff cymorth ariannol ei flaenoriaethu yn y categorïau canlynol: Gofal plant, cludiant, prydau bwyd, adnoddau penodol i gwrs, arholiadau/cofrestriadau, ac, mewn amgylchiadau eithriadol, daliadau

caledi yn ôl disgresiwn. Rhoddir blaenoriaeth i ddysgwyr sydd wedi derbyn gofal/yn derbyn gofal a/neu rhieni sengl a/neu ofalwyr ifanc.

6.3 Bob blwyddyn, rhennir dyraniad y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a dderbyniwyd gan y llywodraeth, yn symiau o arian a gyllidir fel y penderfynir yn 1. 2. 3. a'i ddosbarthu yn ôl y cyntaf i'r felin.

7. Canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais

7.1 Rhaid i ymgeiswyr gwblhau pob adran o ffurflen FCF a'i dychwelyd cyn gynted â phosibl at y swyddog sy'n gyfrifol. Mae hyn yn bwysig gan fod yr arian yn cael ei ddyrannu yn ôl y cyntaf i'r felin.

7.2 Os na fydd y ffurflenni wedi'u cwblhau, byddan nhw'n cael eu dychwelyd a gallai hyn olygu oedi. Os bydd dysgwr am drafod sut i lenwi'r ffurflen, gallan nhw gael help gan y swyddog sy'n gyfrifol.

8. Datganiad

8.1 Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r datganiad.

8.2 Rhaid i riant/dysgwr ddarllen a llofnodi'r datganiad yn electronig ar Hwb y Dysgwr, gan roi gwybodaeth gywir a chyflawn.

8.3 Rhaid hysbysu'r swyddog sy'n gyfrifol am unrhyw newid yn yr amgylchiadau

8.4 Rhaid i ymgeiswyr gytuno i unrhyw ymchwiliad, er mwyn dilysu cywirdeb y wybodaeth a roddwyd.

8.5 Rhaid i'r ymgeisydd ad-dalu'r swm a ddyfarnwyd os profir wedyn bod y wybodaeth yn seiliedig ar wybodaeth anghywir.

8.6 Rhaid cyflwyno tystiolaeth os bydd yr ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth. Rhaid gwneud hyn drwy gyflwyno tystiolaeth gyda'r ffurflen gais.

9. Cludiant o'r Cartref i'r Coleg

9.1 Cludiant ydy un o'r prif rwystrau rhag cyrraedd Colegau. I gydnabod hyn, mae'r Coleg yn defnyddio'r FCF i ychwanegu at y cludiant a ddarperir gan Gynghorau Bwrdeistrefi. Gellir defnyddio'r cyllid i ddarparu bysys contract, tocynnau tymor neu grantiau teithio yn ddibynnol ar anghenion a chymhwyster unigolion. Efallai bod gan rai ardaloedd o amddifadedd mawr fysys ar gontract a ddarparwyd gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Os bydd y cyllid yn ddigonol, gallai'r coleg hefyd gynorthwyo costau teithio i leoliad gwaith pan fydd yn elfen orfodol o ennill cymhwyster e,e. cymwysterau gofal plant. Bydd disgwyl fel arfer i ddysgwyr gyfrannu at gostau lle bo gofyn.

10. Gofal Plant

10.1 Mae swm o arian yn cael ei neilltuo i gynorthwyo rhieni ag angen gofal plant. Asesir pob achos yn unigol ac yn amodol ar gymhwyster. Disgwylir i ddysgwyr wneud cyfraniad at gostau lle bo angen.

11. Cymhorthdal Prydau Bwyd

11.1 Mae'r Coleg yn darparu cymhorthdal prydau bwyd ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed sy'n cyflawni meini prawf arbennig. Mae'r cymhorthdal i'w ddefnyddio o fewn adnoddau'r coleg.

12. Adnoddau penodol i gwrs

Os bydd angen adnoddau penodol ar gyfer y dewis gwrs, megis cyfarpar ar gyfer trin gwallt, yna gellir gwneud cais am gyllid i dalu'r costau hyn. Yn gyffredinol, y coleg sy'n archebu adnoddau fel hyn, sy'n helpu'r ad-daliad.

Arholiadau/cofrestriadau

Gellir defnyddio'r rhain drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn pan fyddan nhw'n berthnasol i gostau dysgwr sydd wedi ymrestru yn y coleg.

Taliadau caledi yn ôl disgresiwn.

Os bydd dysgwyr yn dioddef o galedi ariannol, yna gellir talu am ymrwymiadau taledig a brofir mewn amgylchiadau eithriadol. Yn y lle cyntaf, y ffordd orau i symud ymlaen ydy trafod hawliadau gyda'r swyddog riportio.

13. Rheoli'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn

13.1 Bydd y swyddog sy'n gyfrifol yn rheoli, adolygu a, lle bo angen, yn diweddaru polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Cydnabyddir y bydd y gweithdrefnau hyn, o dro i dro, yn cael eu haddasu i ystyried yr arian sydd ar gael, canllawiau a blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer cynorthwyo dysgwyr.

13.2 Mae gan y swyddog cyfrifol ddyletswydd i ddatblygu arferion gwaith a gwneud penderfyniadau ar all-dalu y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn unol â'r polisi hwn.

13.3 Bydd y swyddog cyfrifol yn paratoi adolygiad misol o gyllideb gan Gyfarwyddwr EMIS gyda chymorth y tîm grantiau. Trafodir yr adroddiadau hyn gyda'r tîm Cyllid a byddan nhw ar gael a gyfer OMT.

13.4 Llunnir adroddiad blynyddol (yn ôl gofyn Llywodraeth Cymru, gweler adroddiad y blynyddoedd blaenorol yn yr atodiad) i roi manylion am effaith dosraniad y flwyddyn flaenorol. Trafodir hyn gyda'r tîm Cyllid a bydd ar gael i OMT, Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac i'r Llywodraethwyr.

13.5 Mae gan Gyfarwyddwr EMIS yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar gyfer taliadau yn ôl disgresiwn i ddysgwyr ar dystiolaeth ysgrifenedig. Mewn argyfwng, gellir dirprwyo'r awdurdod hwn.

14. Diwygiadau

14.1 Adolygir y polisi hwn yn flynyddol o gofio natur ansicr y cyllido.

14.1.2 Caiff unrhyw newidiadau/argymhellion o ran y gronfa hon a dderbyniwyd gan AdAS/DfES neu gan unrhyw sefydliadau perthnasol allanol eu riportio i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Atodiadau

Atodiad 1

ATODIAD – Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r iaith Gymraeg

Safonau'r Gymraeg

Mae Coleg y Cymoedd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gweithredu i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer staff a myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg – Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r safonau a osodwyd ar Goleg y Cymoedd i'w gweld yn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017.

Mae Safon 100 yn cyfeirio at ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol*:*

Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol —

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—
(i) y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a
(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
(i) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a
(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—
(i) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a
(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—

(i) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) *pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*

Gwneud cais am y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Mae manylion am y gronfa ar gael ar wefan y Coleg a system gwneud cais y Coleg. Mae'r manylion yn cynnwys meini prawf cymhwyster a manylion am y costau y bydd y grant yn talu amdanyn nhw. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac ni chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol. Mae polisi'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn hefyd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r fersiwn Saesneg yn nodi bod y ddogfen ar gael yn y Gymraeg.

Mae'r ffurflen gais y am y grant hwn yn ddwyieithog. Mae'r ffurflen yn nodi na chaiff ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn y Saesneg. Mae'r ffurflen gais yn gofyn i ddysgwyr nodi eu dewis iaith ac a fydden nhw'n cwblhau unrhyw agweddau o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prosesu ceisiadau ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg (yn cynnwys, ymhlith materion eraill, y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac amserlen ar gyfer hysbysu ymgeiswyr o benderfyniadau).

Lle bo'n bosibl caiff ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg eu prosesu gan siaradwr Cymraeg, Os na fydd hynny'n bosibl, trefnir bod y ffurflen yn cael ei chyfieithu.

Wrth ystyried ceisiadau am grant y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, caiff ffurflen asesu effaith y Gymraeg ei chwblhau gan y swyddog sy'n gyfrifol am brosesu'r cais. Cymeradwyir y ffurflen hon gan Reolwr yr Iaith Gymraeg. Os bydd y ffurflen gais asesu effaith yn tybio y byddai dyfarnu FCF yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, bydd y cyfryw gais yn cael ei adolygu.

Pan hysbysir ymgeiswyr o'r penderfyniad o ran dyfarnu FCF, cysylltir â nhw yn Gymraeg, os cyflwynwyd y cais drwy gyfrwng y Gymraeg, neu os nododd y dysgwyr mai Cymraeg /dwyieithog oedd eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth (ceir y wybodaeth hon yn ystod y cyfnod ymrestru a'i chofnodi ar y system EBS/Ontrack)

Effeithiau ar y Gymraeg

Nod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ydy cynnig help ariannol i fyfyrwyr cymwys y gallai ystyriaethau ariannol lesteirio'u mynediad i sefydliad addysg bellach. Wrth wahodd dysgwyr Cymraeg eu hiaith o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol hyn i wneud cais am FCF drwy gyfrwng y Gymraeg, nod y Coleg ydy eu hannog i gadw, datblygu a defnyddio'u sgiliau Cymraeg. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith bositif ar ragolygon eu darpar yrfaoedd, yn ogystal ag effaith ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r broses o ddyfarnu grant y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael effaith bositif ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Caiff ymgeiswyr gyfle i lenwi'r ffurflen gais yn Gymraeg ac i anfon a derbyn gohebiaeth ddilynol yn ymwneud â'r grant yn Gymraeg. Gofynnir i ymgeiswyr nodi eu dewis iaith ar y ffurflen gais a thrwy hynny gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r camau canlynol o ran dyfarnu'r FCF yn cael effaith bositif ar drin Gymraeg yn gyfartal – Mae'r wybodaeth am grant y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a'r ffurflen gais ei hun, yn nodi na chaiff siaradwyr Cymraeg eu trin yn llai ffafriol ac

ymdrechir i gael siaradwyr Cymraeg i brosesu ceisiadau dwy gyfrwng y Gymraeg.

Monitro

Mae Rheolwr y Gymraeg yn monitro gweithrediad y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac yn asesu'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol. Mae Swyddog Rheoli'r Gymraeg yn gweithio gyda Gwasanaethau Dysgwyr a Champws i nodi'r camau y gellir eu gweithredu i gael effaith fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Pan adolygir y polisi FCF, llenwir ffurflen asesu effaith ar y Gymraeg gan awdur y polisi a'i adolygu gan Reolwr y Gymraeg